Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Mawrth 2018

Amser: 09.31 - 14.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4606

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Dai Lloyd AC (Cadeirydd) Dawn Bowden AC Angela Burns AC Rhun ap Iorwerth AC Caroline Jones AC Julie Morgan AC
Tystion:	Laura Matthews, Women and Sport Dr Julie Bishop, Iechyd Cyhoeddus Cymru Dr Ciaran Humphreys, Iechyd Cyhoeddus Cymru Jackie Gapper, Estyn John Thomas, Arolygwyr Ei Mawrhydi Anwen Griffiths, Arolygwyr Ei Mawrhydi
Staff y Pwyllgor:	Claire Morris (Clerc) Tanwen Summers (Dirprwy Glerc) Amy Clifton (Ymchwilydd)

	Philippa Watkins (Ymchwilydd)

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2018, penderfynodd y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 17.42, i wahardd y cyhoedd o ddechrau'r cyfarfod hwn

1 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) – Trefn Ystyriaeth – cytundeb mewn egwyddor cyn trafodion Cyfnod 2

1.1 Nododd y Pwyllgor y gweithdrefnau ar gyfer Cyfnod 2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) a chytunodd ar ddull gweithredu ar gyfer y drefn o ran ystyried y gwelliannau.

2 Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) – Craffu ar ôl deddfu: Papur Cwmpasu

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i ailystyried y mater hwn maes o law.

Sesiwn gyhoeddus

3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

3.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jayne Bryant AC a Lynne Neagle AC.

4 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc – tystiolaeth gan Women in Sport

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolydd o Women in Sport.

4.2 Cytunodd Laura Matthews i ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhaglen DADEE (Dads and Daughters Exercising and Empowered) sy'n cael ei datblygu gan Brifysgol Newcastle, Awstralia.

5 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc – tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

6 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc – tystiolaeth gan Estyn

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Estyn.

7 Papurau i'w nodi

7.1 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018

7.1a Nododd y Pwyllgor Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.

7.2 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc: Nodiadau am waith ymgysylltu

7.2a Nododd y Pwyllgor y nodiadau am waith ymgysylltu mewn perthynas â'i ymchwiliad i weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc.

7.3 Atal Hunanladdiad: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

7.3a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i Atal Hunanladdiad.

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

8.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

9 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc – trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.